

A close-up photograph of a hand holding a white envelope, positioned over a ballot box. The ballot box is black with a clear window showing a marbled pattern. The background is slightly blurred, showing a white wall and a yellow object on the left.

# Briff Ymchwil Canlyniadau etholiad y Cynulliad yn 2016

---

Awduron: **Helen Jones and Owen Holzinger**  
Dyddiad: **Mehefin 2016**



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awduron: **Helen Jones and Owen Holzinger**

Dyddiad: **Mehefin 2016**

Rhif Papur: **16-030**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**Caerdydd**  
**CF99 1NA**

 : **0300 200 6328**

 : **Helen.Jones@Cynulliad.Cymru**

 : **Owen.Holzinger@Cynulliad.Cymru**

 : **Cynulliad.Cymru/Pigion**

 : **@SeneddYmchwil**

 : **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

## © **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n

Briff Ymchwil

# Canlyniadau etholiad y Cynulliad yn 2016

---

Mae'r papur hwn yn crynhoi canlyniadau, pleidleisiau, cyfrannau a'r ganran a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad ar 5 Mai 2016

---



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
Y system etholiadol.....	1
Ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer etholiad 2016 .....	1
<b>2. Crynodeb o ganlyniadau etholiad y Cynulliad yn 2016 .....</b>	<b>2</b>
Canlyniadau allweddol.....	2
Canlyniadau'r etholaethau.....	3
Canlyniadau'r rhanbarthau .....	9
Seddi yn newid dwylo.....	10
Seddi diogel ac ymylol.....	10
Aelodau'r Cynulliad - cyfansoddiad .....	12
Aelodau Cynulliad newydd.....	13
Y ganran a bleidleisiodd .....	13
<b>3. Canlyniadau manwl yr etholiad.....</b>	<b>15</b>
<b>4. Ffynhonnell a Nodiadau .....</b>	<b>28</b>
Ffynonellau data - pleidleisiau.....	28
Ffynonellau data - nifer yr etholwyr a'r ganran a bleidleisiodd .....	28
Allwedd i godau'r pleidiau.....	28

# 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o ganlyniadau, pleidleisiau, cyfrannau a'r ganran a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad ar 5 Mai 2016.

## Y system etholiadol

Y System Aelodau Ychwanegol yw enw'r system etholiadol yng Nghymru. Mae gan y Cynulliad 60 o aelodau etholedig ac mae gan bob etholwr ddwy bleidlais. Defnyddir y bleidlais gyntaf i ethol Aelod Cynulliad lleol neu Aelod etholaeth gan ddefnyddio'r system 'y cyntaf i'r felin'. Caiff deugain o Aelodau'r Cynulliad eu hethol ar y sail hon, un o bob etholaeth.

Defnyddir yr ail bleidlais i ethol 20 aelod ychwanegol ar sail ranbarthol, er mwyn ceisio sicrhau bod nifer y seddi sydd gan bob plaid wleidyddol yn adlewyrchu eu cyfran o'r bleidlais. Fformiwla d'Hondt sy'n cael ei defnyddio i benderfynu pa bleidiau sy'n ennill seddi ar y rhestrau rhanbarthol. I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at wefan y Cynulliad Cenedlaethol - ***Sut caiff y Cynulliad ei ethol***, sy'n rhoi disgrifiad cyffredinol o'r system etholiadol.

## Ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer etholiad 2016

Mae'r ystadegau ynglŷn â'r etholiad a ddangosir yn y papur hwn wedi cael eu dwyn ynghyd o ddata a ddarparwyd gan y swyddogion canlyniadau ym mhob awdurdod lleol a data a gafwyd gan y **Press Association**. Mae ffigurau'r etholwyr yn ymwneud â nifer y bobl a oedd wedi'u cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio yn etholiad y Cynulliad ar 18 Ebrill 2016, a chawsant eu darparu gan swyddogion canlyniadau awdurdodau lleol a'r Press Association.

Mae'r papur hwn yn cynnwys cymariaethau â chanlyniadau etholiad blaenorol y Cynulliad ar 5 Mai 2011.

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad digwyddodd y newidiadau a ganlyn:

- Tynnodd Ieuan Wyn Jones yn ôl fel AC dros Ynys Môn ar 20/06/2013. Enillwyd yr is-etholiad dilynol gan Rhun Iddon Thomas (Plaid yn cadw, 01/08/2013)
- Cafodd Antoinette Sandbach ei hethol yn Aelod Seneddol yn yr etholiad cyffredinol yn 2015, a thynnodd yn ôl fel Aelod o'r Cynulliad wedi hynny. Cymerwyd ei lle gan ymgeisydd nesaf y Ceidwadwyr ar restr ranbarthol Gogledd Cymru, sef Janet Howarth.
- Cafodd Byron Davies ei ethol yn Aelod Seneddol yn yr etholiad cyffredinol yn 2015, a thynnodd yn ôl fel Aelod o'r Cynulliad wedi hynny. Cymerwyd ei lle gan ymgeisydd nesaf y Ceidwadwyr ar restr ranbarthol Gorllewin De Cymru, sef Altaf Hussein.


Nid yw newidiadau o fewn y tymor y Pedwerydd Cynulliad yn cael eu hadlewyrchu yn y papur hwn.

## 2. Crynodeb o ganlyniadau etholiad y Cynulliad yn 2016

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb lefel uchel o ganlyniadau etholiad y Cynulliad yn 2016. Sylwer eu bod yn cael eu cymharu â'r sefyllfa ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2011. Ceir rhagor o wybodaeth yn **adran 3**.

Nid enillodd unrhyw blaid fwyafrif llwyr yn yr etholiad. Dangosir dosbarthiad y seddi yn y graff isod.

**Ffigur 1 Cyfran o'r seddi 2016**



### Canlyniadau allweddol

**Tabl 1. Crynodeb: 2016 a newidiadau 2011-2016**


	Lab	Con	PC	LD	UKIP	Oth	Cyfanswm
<b>Seddi</b>							
Seddi etholaeth	27	6	6	1	0	0	<b>40</b>
Seddi rhanbarthol	2	5	6	0	7	0	<b>20</b>
<b>Cyfanswm y seddi a enillwyd</b>	<b>29</b>	<b>11</b>	<b>12</b>	<b>1</b>	<b>7</b>	<b>0</b>	<b>60</b>
Newid ers 2011	-1	-3	1	-4	7	0	-
<b>Canlyniadau'r etholaethau</b>							
Pleidleisiau (miloedd)	354	216	209	78	127	35	1,019
Canran o'r bleidlais	34.7	21.2	20.5	7.7	12.5	3.4	100
Newid yn y ganran	-7.6	-3.8	1.2	-2.9	12.5	0.6	-
<b>Canlyniadau'r rhanbarthau</b>							
Pleidleisiau (miloedd)	319	191	212	66	132	96	1,016
Canran o'r bleidlais	31.4	18.8	20.9	6.5	13.0	9.4	100
Newid yn y ganran	-5.5	-3.7	3.0	-1.5	8.5	-0.7	-

- Enillodd Llafur 29 o seddi, 1 yn llai nag yn 2011, ond 3 sedd yn fwy nag yn 2007. Yr unig sedd etholaethol i newid dwylo oedd y Rhondda. Roedd yn sedd i'r Blaid Lafur cyn yr etholiad, ac mae nawr yn nwylo Plaid Cymru.
- Enillodd y Ceidwadwyr 11 sedd, 3 yn llai nag yn 2011. Mae hyn yn golygu na fyddant yn parhau yn y sefyllfa o fod yr wrthblaid swyddogol ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

- Enillodd Plaid Cymru 12 sedd, 1 yn fwy nag yn 2011 ar ôl ennill yr unig etholaeth i newid dwylo (Rhondda). Plaid Cymru nawr yw'r ail blaid fwyaf yn y Senedd a hi bellach yw'r wrthblaid swyddogol.
- Enillodd y Democratiaid Rhyddfrydol 1 sedd, gan golli 4 sedd oddi ar y rhestrau rhanbarthol o'i gymharu â 2011. Dyma ganlyniad gwaethaf y Democratiaid Rhyddfrydol mewn etholiad Cynulliad. Bellach nid oes ganddynt yr un Aelod rhanbarthol am y tro cyntaf erioed.
- Am y tro cyntaf mewn etholiad Cynulliad, enillodd plaid wleidyddol heblaw'r pedair a restrir uchod seddi yn y Senedd. Enillodd UKIP 7 sedd a hi bellach yw'r bedwaredd blaid o ran nifer y seddi.

Mae'r ffeithlun isod yn dangos dosbarthiad y seddi etholaeth a'r seddi rhanbarthol fesul plaid.

**Ffigur 2 Seddi yn y Cynulliad fesul etholaeth a rhanbarth**




## Canlyniadau'r etholaethau

Mae'r adran hon yn disgrifio cyfran gyffredinol y bleidlais yn yr etholaethau a newidiadau ers 2011.

- Roedd cyfran y Blaid Lafur o'r bleidlais 7.6 pwynt canran yn llai nag yn 2011, gan arwain at y gyfran isaf ond un o'r bleidlais etholaethol i'r Blaid Lafur ei chael. Mae cyfran y Blaid Lafur o'r bleidlais etholaethol 2.5 y cant yn fwy nag yn 2007.
- Gwelodd y Ceidwadwyr hefyd eu cyfran o'r bleidlais yn gostwng, 3.8 y cant. Cawsant ychydig dros un rhan o bump o'r bleidlais etholaethol.
- Plaid Cymru oedd yr unig blaid a oedd eisoes â seddi yn y Cynulliad i gynyddu ei chyfran o'r bleidlais, a hynny 1.2 y cant.
- Nid oedd gan UKIP ymgeiswyr etholaeth yn etholiad 2011. Cawsant 12.5 y cant o'r bleidlais.


Amlinellir ar dudalennau 4-8 pa gyfran o'r bleidlais a gafodd pob plaid ym mhob etholaeth.

**Ffigur 3 Map o gyfran y Blaid Lafur o'r bleidlais**







**Ffigur 4 Map o gyfran y Ceidwadwyr o'r bleidlais**




**Ffigur 5 Map o gyfran Plaid Cymru o'r bleidlais**



**Ffigur 6 Map o gyfran y Democratiaid Rhyddfrydol o'r bleidlais**



Ffigur 7 Map o gyfran UKIP o'r bleidlais




## Canlyniadau'r rhanbarthau

Dangosir isod gyfran gyffredinol y bleidlais ranbarthol a'r newidiadau ers 2011.


- Mae pleidiau bach ac ymgeiswyr annibynnol yn cyfrif am bron i 10 y cant o'r bleidlais ranbarthol. Mae'r ymgeiswyr yn y categori "arall" yn ennill cyfran lawer mwy o'r bleidlais ranbarthol nag o'r bleidlais etholaethol.
- Ac eithrio'r ymgeiswyr eraill, mae pob plaid o fewn +/- 3.3 y cant i'r bleidlais etholaethol, gan awgrymu bod y rhan fwyaf o etholwyr yn pleidleisio dros yr un plaid yn y ddwy bleidlais.
- Er bod y Blaid Lafur yn derbyn yn agos at un rhan o dair o'r pleidleisiau yn y bleidlais ranbarthol, mae'r system aelod ychwanegol (a grybwyllir yn adran 1) yn golygu nad yw hyn yn trosi'n gyfran gyfatebol o seddi.
- Gwelodd y Democratiaid Rhyddfrydol eu cyfran o'r bleidlais yn gostwng 1.5 pwynt canran, gan arwain at golli pob un o'r pedair sedd ranbarthol a oedd ganddynt yn y Pedwerydd Cynulliad.
- Ar y lefel ranbarthol yr enillodd UKIP pob un o'i seddi. Cawsant saith sedd gyda chyfran o 13 y cant o'r bleidlais.

Mae'r ffeithlun isod yn dangos y newidiadau yn y seddi rhanbarthol. Mae hefyd yn defnyddio data cyfrifiad 2011 i greu 'cartogram', gan wneud maint etholaethau yn gymesur â'u poblogaeth breswyl, yn hytrach na'u harwynebedd daearyddol.

### Ffigur 8 Newidiadau mewn seddi rhanbarthol a 'chartogram' o ganlyniadau'r etholaethau a'r rhanbarthau



### Seddi yn y Cynulliad yn ôl Etholaeth a Rhanbarth wedi'u haddasu yn ôl maint y boblogaeth sy'n byw yno



Yn cynnwys data Arolwg Ordians © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016. Arolwg Ordians 100047295

## Seddi yn newid dwylo

Yr unig sedd i newid dwylo oedd y Rhondda. Ymgeisydd y Blaid Lafur (Leighton Andrews) oedd yn arfer dal y sedd, a hynny ers 2003. Ym 1999 roedd y sedd yn nwylo Plaid Cymru.

Enillwyd y sedd yn etholiad 2016 gan Leanne Wood, arweinydd Plaid Cymru, gyda 50.6 y cant o'r bleidlais a mwyafrif o 14.7 y cant.

## Seddi diogel ac ymylol

Y mwyafrif yw'r gwahaniaeth rhwng nifer y pleidleisiau a gafodd y blaid fuddugol a'r nifer a gafodd yr ail blaid.

Ogwr oedd yr etholaeth ble y cafwyd y mwyafrif mwyaf, sef 40.5 y cant (9,468 o bleidleisiau). Sedd a gadwodd y Blaid Lafur ers etholiad y Cynulliad yn 2011 oedd hon. Mae'r mwyafrif etholaethol hwn 6.8 pwynt canran yn llai nag yn etholiad 2011.

Llanelli oedd â'r mwyafrif etholaethol lleiaf, sef 1.4 y cant (382 o bleidleisiau). Sedd a gadwodd y Blaid Lafur ers etholiad y Cynulliad yn 2011 oedd hon. O'i gymharu â 2011 mae'r mwyafrif etholaethol wedi cynyddu 1.1 pwynt canran.


Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y mwyafrif etholaethol ers 2011 yn Ynys Môn. Cynyddodd y mwyafrif yma o 12.2 y cant yn 2011 i 37.8 y cant yn 2016 (cynnydd o 25.6 o bwyntiau canran). Nid yw hyn yn cyfrif am yr is-etholiad a gynhaliwyd ar 01/08/2013. Enillwyd hwn hefyd gan Blaid Cymru, â mwyafrif o 42.3 y cant. Gellir cael manylion am yr is-etholiad ar Flog y Gwasanaeth Ymchwil, **Pigion**.

O ddiystyru'r unig etholaeth i newid o un blaid i'r llall (Rhondda), gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y mwyafrif ym Mlaenau Gwent. Yma, gostyngodd y mwyafrif o 45.1 y cant yn 2011 i 3.1 y cant yn 2016 (gostyngiad o 42 o bwyntiau canran).

Y mwyafrif etholaethol canolrifol oedd 16 y cant. Mae'r map ar dudalen 11 yn dangos y mwyafrif oedd etholaethol o'r lleiaf (tywylaf) i'r mwyaf (goleuaf).

Nid yw'r adroddiad hwn yn adolygu'r mwyafrif oedd ar lefel ranbarthol. Mae'r dull D'Hondt a ddefnyddir ar gyfer y bleidlais ranbarthol yn golygu nad yw'r mwyafrif yn cael ei gyfrifo yn yr un modd â'r system 'cyntaf i'r felin' ac felly nid oes modd eu cymharu.

Ffigur 9 Mwyafrifoedd, lleiaf (tywyll) i'r mwyaf (golau)



## Aelodau'r Cynulliad - cyfansoddiad

Rhoddir rhestr gyflawn o Aelodau etholedig y Cynulliad yn **adran 3**.


Mae 25 o'r trigain Aelod etholedig yn fenywod a 35 yn ddynion. Mae'r gyfran hon yr un fath ag yn yr etholiad blaenorol ac yn cyfateb i 41.7 y cant o Aelodau'r Cynulliad. Yn 2011 etholwyd John Dixon yn Aelod rhanbarthol dros Ganol De Cymru. Byddai hyn wedi golygu mai 36 o ddynion a 24 o fenywod oedd cyfansoddiad y Cynulliad yn 2011. Fodd bynnag fe'i cafwyd yn **anghymwys i fod yn Aelod Cynulliad** a chymerwyd ei le gan Eluned Parrott fel ymgeisydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar restr y rhanbarth.

Yn gyfan gwbl, safodd 553 o ymgeiswyr yn yr etholiad i'r Cynulliad yn 2016 (heb addasu'r nifer ar gyfer ymgeiswyr a safodd ar restr ranbarthol ac ar gyfer etholaeth.) Roedd 362 (65.5 y cant) o'r rhain yn ddynion a 191 (34.5 y cant) yn fenywod.

Menywod oedd 31.5 y cant o'r ymgeiswyr etholaeth ond cawsant eu hethol i gynrychioli 47.5 y cant o'r etholaethau.

Mae'r map isod yn dangos etholaethau a rhanbarthau yn ôl rhyw yr ymgeisydd a etholwyd.

**Ffigur 10 Etholaethau a rhanbarthau yn ôl rhyw yr aelod etholedig (menywod mewn coch, dynion mewn glas)**





## Aelodau Cynulliad newydd

Mae dros 22 o Aelodau newydd yn y Pumed Cynulliad. Mae 11 o'r Aelodau etholaeth yn newydd oherwydd i Aelodau benderfynu peidio â sefyll. Dim ond un etholaeth a newidiodd ddwylo, ac aeth i ymgeisydd a oedd yn gwasanaethu'n flaenorol fel AC dros Ganol De Cymru. Mae 11 o'r 20 o seddi rhanbarthol wedi mynd i Aelodau newydd. Mae hyn yn cynnwys Dai Lloyd a etholwyd yn flaenorol yn y Cynulliad Cyntaf, a'r Ail a'r Trydydd Cynulliad.

## Y ganran a bleidleisiodd

Roedd y ganran a bleidleisiodd yn etholiad 2011 yn fwy nag mewn unrhyw etholiad 1999.

Y diffiniad a ddefnyddir yn y papur hwn o'r ganran a bleidleisiodd yw pleidleisiau dilys a fwrwyd fel canran o'r etholwyr.


Ar 18 Ebrill roedd tua 2.25 miliwn o bleidleiswyr cofrestredig yng Nghymru. Pleidleisiodd dros 1.02 miliwn o'r unigolion hyn yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Mai 2016.

Roedd y ganran a bleidleisiodd 4 pwynt canran yn fwy nag yn 2011 ac 1 pwynt canran yn llai na'r ganran fwyaf i bleidleisio (ym 1999).


Mae'r graffeg isod yn dangos ystadegau'r ganran a bleidleisiodd yng Nghymru, ers Refferendwm Cynulliad Cymru ym 1997.

### Ffigur 11 Y ganran a bleidleisiodd yng Nghymru ers 1997

Nifer pleidleiswyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 1999-2016



Nifer y pleidleiswyr mewn etholiadau a refferenda yng Nghymru: 1997-2016




Y ganran a bleidleisiodd yn seiliedig ar y pleidleisiau dilys oedd 45.4 y cant. Mae'r ganran hon yn llai nag ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2015 (65.7 y cant) ond 4 pwynt canran yn fwy nag etholiad y Cynulliad yn 2011 (41.4 y cant).

Ar lefel etholaeth, yng Ngheredigion y gwelwyd y ganran fwyaf yn pleidleisio (57.6 y cant), ac yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy y gwelwyd y ganran leiaf (34.6 y cant). Y ganran fwyaf erioed i bleidleisio oedd yn etholaeth Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr ym 1999 (60.9 y cant). Pleidleisiodd y ganran leiaf erioed yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy yn 2003 (24.9 y cant).

Cynyddodd y ganran a bleidleisiodd ym mhob etholaeth ac eithrio Alun a Glannau Dyfrdwy, lle y bu gostyngiad o 2.3 pwynt canran, o 36.9 y cant yn 2011 i 34.6 y cant yn 2016. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y ganran a bleidleisiodd yn y Rhondda, o 38.1 y cant yn 2011 i 47.2 y cant yn 2016 (9.1 y cant).









**Ffigur 12 Y ganran a bleidleisiodd yn ôl etholaeth (Mwyaf yn dywyll, lleiaf yn olau)**





















### 3. Canlyniadau manwl yr etholiad









Tabl 2 Crynodeb o'r pleidleisio yng Nghymru: Cyffredinol

**Cyfanswm pleidleisiau'r etholaethau a'r rhanbarthau** (yn ôl nifer y pleidleisiau)

	Pleidleisiau	Cyfran fel %	Newid yn y gyfran fel %	AC a etholwyd	newid
Y Blaid Lafur 	673,061	33.1%	-6.5%	29	-1
Plaid Cymru 	420,924	20.7%	+2.1%	12	1
Y Ceidwadwyr 	406,443	20.0%	-3.8%	11	-3
UKIP 	259,176	12.7%	+10.5%	7	7
Y Democratiaid Rhyddfrydol 	143,669	7.1%	-2.2%	1	-4
Arall 	65,192	3.2%	-0.5%	0	0
Y Blaid Werdd 	55,413	2.7%	+0.9%	0	0
Annibynnol 	10,247	0.5%	-0.5%	0	0

Pleidlais y rhanbarthau (yn ôl nifer y pleidleisiau)		Pleidleisiau	Cyfran fel %	Newid yn y gyfran fel %	AC a etholwyd	newid
Y Blaid Lafur		319,196	31.5%	-5.5%	2	0
Plaid Cymru		211,548	20.8%	+2.9%	6	0
Y Ceidwadwyr		190,846	18.8%	-3.8%	5	-3
UKIP		132,138	13.0%	+8.5%	7	7
Y Democratiaid Rhyddfrydol		65,504	6.5%	-1.6%	0	-4
Abolish the Welsh Assembly Party		44,286	4.4%	-	0	0
Y Blaid Werdd		30,211	3.0%	-0.5%	0	0
The Official Monster Raving Loony Party		5,743	0.6%	+0.4%	0	0
Association of Welsh Local Independents		2,897	0.3%	-	0	0
Women's Equality Party		2,807	0.3%	-	0	0
Trade Unionist and Socialist Coalition		2,040	0.2%	-	0	0
Welsh Communist Party		1,932	0.2%	-	0	0
Annibynnol		1,577	0.2%	+0.0%	0	0
People First		1,496	0.1%	-	0	0
Welsh Christian Party		1,103	0.1%	-0.8%	0	0
Communist Party of Britain		520	0.1%	-0.2%	0	0
Freedom to choose		470	0.0%	-	0	0
National Front		429	0.0%	-	0	0

**Pleidlais yr etholaethau**  
(yn ôl nifer y pleidleisiau)

		Pleidleisiau	Cyfran fel %	newid yn y gyfran fel %	AC a etholwyd	newid
Y Blaid Lafur		353,865	34.7%	-7.6%	27	-1
Y Ceidwadwyr		215,597	21.2%	-3.8%	6	0
Plaid Cymru		209,376	20.5%	+1.2%	6	1
UKIP		127,038	12.5%	+12.5%	0	0
Y Democratiaid Rhyddfrydol		78,165	7.7%	-2.9%	1	0
Y Blaid Werdd		25,202	2.5%	+2.3%	0	0
Annibynnol		8,670	0.9%	-1.0%	0	0
Arall		1,469	0.1%	-0.7%	0	0

**Tabl 3 Canlyniadau'r etholaethau**

	Plaid		Pleidleisiau					Isgyfanswm	Cyfanswm	Mwyaf-rif
	2011	2016	Con	Lab	LD	PC	UKIP	Oth		
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>										
Brycheiniog a Sir Faesyfed			7,728	2,703	15,898	1,180	2,161	697	30,367	8,170
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr			4,489	5,727	837	14,427	3,474	797	29,751	8,700
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro			10,355	6,982	699	5,459	3,300	2,442	29,237	3,373
Ceredigion			2,075	1,902	9,606	12,014	2,665	1,223	29,485	2,408
Dwyfor Meirionnydd			3,160	2,443	916	9,566	2,149	2,002	20,236	6,406
Llanelli			1,937	10,267	355	9,885	4,132	1,540	28,116	382
Sir Drefaldwyn			9,875	1,389	6,536	2,410	2,458	932	23,600	3,339
Preseli Sir Benfro			11,123	7,193	1,677	3,957	3,286	1,161	28,397	3,930
<b>Gogledd Cymru</b>										
Aberconwy			7,646	6,039	781	6,892	0	680	22,038	754
Alun a Glannau Dyfrdwy			4,558	9,922	980	1,944	3,765	527	21,696	5,364
Arfon			1,655	6,800	577	10,962	0	0	19,994	4,162
De Clwyd			4,846	7,862	2,289	3,861	2,827	474	22,159	3,016
Gorllewin Clwyd			10,831	5,246	831	5,768	2,985	565	26,226	5,063
Delyn			5,898	9,480	1,718	2,269	3,794	0	23,159	3,582
Dyffryn Clwyd			8,792	9,560	758	2,098	2,975	0	24,183	768
Wrecsam			6,227	7,552	1,140	2,631	2,393	411	20,354	1,325
Ynys Môn			2,904	4,278	334	13,788	3,212	651	25,167	9,510
<b>Canol De Cymru</b>										
Canol Caerdydd			2,317	10,016	9,199	1,951	1,223	1,362	26,068	817
Gogledd Caerdydd			13,099	16,766	1,130	2,278	2,509	1,670	37,452	3,667
De Caerdydd a Phenarth			6,353	13,274	1,345	4,320	3,716	1,268	30,276	6,921
Gorllewin Caerdydd			5,617	11,381	868	10,205	2,629	1,260	31,960	1,176
Cwm Cynon			1,177	9,830	335	3,836	3,460	598	19,236	5,994
Pontypridd			3,884	9,986	2,979	4,659	3,322	508	25,338	5,327
Rhondda			528	8,432	173	11,891	2,203	259	23,486	3,459
Bro Morgannwg			13,878	14,655	938	3,871	3,662	794	37,798	777
<b>Dwyrain De Cymru</b>										
Blaenau Gwent			1,334	8,442	300	7,792	3,423	0	21,291	650
Caerffili			2,412	9,584	386	8,009	5,954	770	27,115	1,575
Islwyn			1,775	10,050	597	4,349	4,944	594	22,309	5,106
Merthyr Tudful a Rhymini			1,331	9,763	1,122	3,721	4,277	469	20,683	5,486
Mynwy			13,585	8,438	1,474	1,824	3,092	2,988	31,401	5,147
Dwyrain Casnewydd			3,768	9,229	1,481	1,386	4,333	491	20,688	4,896
Gorllewin Casnewydd			8,042	12,157	880	1,645	3,842	1,185	27,751	4,115
Tor-faen			3,931	9,688	628	2,860	5,190	681	22,978	4,498
<b>Gorllewin De Cymru</b>										
Aberafan			1,342	10,578	1,248	4,176	3,119	389	20,852	6,402
Pen-y-bont ar Ogwr			6,543	12,166	1,087	2,569	3,919	567	26,851	5,623
Gwyr			10,153	11,982	1,033	2,982	3,300	737	30,187	1,829
Castell-nedd			2,179	9,468	746	6,545	3,780	2,645	25,363	2,923
Ogwr			2,587	12,895	698	3,427	3,233	516	23,356	9,468
Dwyrain Abertawe			1,729	10,726	1,574	2,744	3,274	529	20,576	7,452
Gorllewin Abertawe			3,934	9,014	2,012	3,225	3,058	959	22,202	5,080

**Tabl 4 Canlyniadau'r etholaethau, newid yng nghyfran y bleidlais, nifer yr etholwyr a'r ganran a bleidleisiodd**

	Plaid		Newid yn y gyfran o'r bleidlais fel %					Isgyfanswm	Etholwyr	Y ganran a bleidleisiodd
	2011	2016	Con	Lab	LD	PC	UKIP			
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>										
Brycheiniog a Sir Faesyfed			-7.9%	-8.0%	9.3%	-2.8%	7.1%	2.3%	53793	56.5%
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr			-5.2%	-10.8%	-2.0%	3.6%	11.7%	2.7%	55395	53.7%
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro			-0.4%	-6.6%	-1.5%	-11.1%	11.3%	8.4%	56886	51.4%
Ceredigion			-2.4%	-2.3%	-2.6%	-0.6%	9.0%	-1.1%	51230	57.6%
Dwyfor Meirionnydd			-4.8%	-0.6%	-0.3%	0.7%	10.6%	-5.7%	43304	46.7%
Llanelli			-4.2%	-3.2%	-0.8%	-4.3%	14.7%	-2.2%	59651	47.1%
Sir Drefaldwyn			-1.9%	-5.5%	-5.9%	-1.1%	10.4%	3.9%	48682	48.5%
Preseli Sir Benfro			-3.2%	-9.1%	-1.8%	-1.6%	11.6%	4.1%	56414	50.3%
<b>Gogledd Cymru</b>										
Aberconwy			0.7%	1.7%	-10.6%	5.0%	0.0%	3.1%	44960	49.0%
Alun a Glannau Dyfrdwy			-7.1%	-6.9%	-3.1%	1.4%	17.4%	-1.8%	62697	34.6%
Arfon			-4.2%	7.8%	-1.6%	-1.9%	0.0%	0.0%	39269	50.9%
De Clwyd			-7.3%	-6.9%	0.5%	-1.1%	12.8%	2.1%	54185	40.9%
Gorllewin Clwyd			-2.0%	-6.4%	-4.2%	-1.0%	11.4%	2.2%	57657	45.5%
Delyn			-8.2%	-5.2%	-0.2%	-2.8%	16.4%	0.0%	53490	43.3%
Dyffryn Clwyd			3.0%	-11.2%	-1.6%	-2.6%	12.3%	0.0%	56322	42.9%
Wrecsam			3.7%	-7.7%	-8.8%	-1.0%	11.8%	2.0%	51567	39.5%
Ynys Môn			-17.7%	-9.2%	-1.8%	13.4%	12.8%	2.6%	50345	50.0%
<b>Canol De Cymru</b>										
Canol Caerdydd			-6.2%	0.5%	-2.4%	0.3%	4.7%	3.1%	57177	45.6%
Gogledd Caerdydd			-7.4%	-2.8%	-1.6%	0.7%	6.7%	4.5%	65927	56.8%
De Caerdydd a Phenarth			-6.5%	-6.4%	-5.7%	2.2%	12.3%	4.2%	76110	39.8%
Gorllewin Caerdydd			-8.3%	-11.5%	-4.3%	11.9%	8.2%	3.9%	66040	48.4%
Cwm Cynon			-2.0%	-10.9%	-0.9%	-7.3%	18.0%	3.1%	50292	38.2%
Pontypridd			-0.4%	-11.4%	-6.1%	4.9%	13.1%	-0.1%	58277	43.5%
Rhondda			-2.6%	-27.3%	-1.7%	21.1%	9.4%	1.1%	49758	47.2%
Bro Morgannwg			0.7%	-8.6%	-2.1%	-1.9%	9.7%	2.1%	71177	53.1%
<b>Dwyrain De Cymru</b>										
Blaenau Gwent			1.0%	-24.3%	-0.4%	31.2%	16.1%	-23.5%	50574	42.1%
Caerffili			-4.3%	-13.6%	-2.7%	-0.2%	22.0%	-1.2%	62449	43.4%
Islwyn			-4.0%	-12.9%	-0.4%	-2.2%	22.2%	-2.7%	54465	41.0%
Merthyr Tudful a Rhymni			0.1%	-7.1%	-7.4%	9.2%	20.7%	-15.5%	53754	38.5%
Mynyw			-7.0%	-3.0%	-5.1%	-1.7%	9.8%	7.0%	64197	48.9%
Dwyrain Casnewydd			-4.9%	-6.2%	-11.9%	-0.3%	20.9%	2.4%	55499	37.3%
Gorllewin Casnewydd			-4.9%	-8.4%	-3.7%	-1.1%	13.8%	4.3%	62169	44.6%
Tor-faen			2.3%	-4.0%	-1.1%	0.3%	22.6%	-20.0%	60246	38.1%
<b>Gorllewin De Cymru</b>										
Aberafan			-7.9%	-13.4%	-0.8%	5.2%	15.0%	1.9%	49074	42.5%
Pen-y-bont ar Ogwr			-3.6%	-10.9%	-3.2%	0.9%	14.6%	2.1%	60195	44.6%
Gwyr			3.7%	-8.4%	-6.5%	-2.3%	10.9%	2.4%	60631	49.8%
Castell-nedd			-3.1%	-16.1%	-1.2%	-0.8%	14.9%	6.2%	55395	45.8%
Ogwr			-3.5%	-8.7%	-1.9%	-2.0%	13.8%	2.2%	54502	42.9%
Dwyrain Abertawe			-6.2%	-6.2%	-1.2%	0.9%	15.9%	-3.3%	57589	35.7%
Gorllewin Abertawe			-6.3%	-4.7%	-7.7%	0.6%	13.8%	4.3%	54593	40.7%

**Tabl 5 Canlyniadau'r etholaethau, cyfran o'r bleidlais a'r mwyafrif, canran o gyfanswm y pleidleisiau dilys a fwriwyd**

	Plaid		Cyfran o'r bleidlais fel %					Isgy-fanswm	Mwyafrif
	2011	2016	Con	Lab	LD	PC	UKIP	Oth	
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>									
Brycheiniog a Sir Faesyfed			25.4%	8.9%	52.4%	3.9%	7.1%	2.3%	26.9%
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr			15.1%	19.2%	2.8%	48.5%	11.7%	2.7%	29.2%
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro			35.4%	23.9%	2.4%	18.7%	11.3%	8.4%	11.5%
Ceredigion			7.0%	6.5%	32.6%	40.7%	9.0%	4.1%	8.2%
Dwyfor Meirionnydd			15.6%	12.1%	4.5%	47.3%	10.6%	9.9%	31.7%
Llanelli			6.9%	36.5%	1.3%	35.2%	14.7%	5.5%	1.4%
Sir Drefaldwyn			41.8%	5.9%	27.7%	10.2%	10.4%	3.9%	14.1%
Preseli Sir Benfro			39.2%	25.3%	5.9%	13.9%	11.6%	4.1%	13.8%
<b>Gogledd Cymru</b>									
Aberconwy			34.7%	27.4%	3.5%	31.3%	0.0%	3.1%	3.4%
Alun a Glannau Dyfrdwy			21.0%	45.7%	4.5%	9.0%	17.4%	2.4%	24.7%
Arfon			8.3%	34.0%	2.9%	54.8%	0.0%	0.0%	20.8%
De Clwyd			21.9%	35.5%	10.3%	17.4%	12.8%	2.1%	13.6%
Gorllewin Clwyd			41.3%	20.0%	3.2%	22.0%	11.4%	2.2%	19.3%
Delyn			25.5%	40.9%	7.4%	9.8%	16.4%	0.0%	15.5%
Dyffryn Clwyd			36.4%	39.5%	3.1%	8.7%	12.3%	0.0%	3.2%
Wrecsam			30.6%	37.1%	5.6%	12.9%	11.8%	2.0%	6.5%
Ynys Môn			11.5%	17.0%	1.3%	54.8%	12.8%	2.6%	37.8%
<b>Canol De Cymru</b>									
Canol Caerdydd			8.9%	38.4%	35.3%	7.5%	4.7%	5.2%	3.1%
Gogledd Caerdydd			35.0%	44.8%	3.0%	6.1%	6.7%	4.5%	9.8%
De Caerdydd a Phenarth			21.0%	43.8%	4.4%	14.3%	12.3%	4.2%	22.9%
Gorllewin Caerdydd			17.6%	35.6%	2.7%	31.9%	8.2%	3.9%	3.7%
Cwm Cynon			6.1%	51.1%	1.7%	19.9%	18.0%	3.1%	31.2%
Pontypridd			15.3%	39.4%	11.8%	18.4%	13.1%	2.0%	21.0%
Rhondda			2.2%	35.9%	0.7%	50.6%	9.4%	1.1%	14.7%
Bro Morgannwg			36.7%	38.8%	2.5%	10.2%	9.7%	2.1%	2.1%
<b>Dwyrain De Cymru</b>									
Blaenau Gwent			6.3%	39.7%	1.4%	36.6%	16.1%	0.0%	3.1%
Caerffili			8.9%	35.3%	1.4%	29.5%	22.0%	2.8%	5.8%
Islwyn			8.0%	45.0%	2.7%	19.5%	22.2%	2.7%	22.9%
Merthyr Tudful a Rhymini			6.4%	47.2%	5.4%	18.0%	20.7%	2.3%	26.5%
Mynwy			43.3%	26.9%	4.7%	5.8%	9.8%	9.5%	16.4%
Dwyrain Casnewydd			18.2%	44.6%	7.2%	6.7%	20.9%	2.4%	23.7%
Gorllewin Casnewydd			29.0%	43.8%	3.2%	5.9%	13.8%	4.3%	14.8%
Tor-faen			17.1%	42.2%	2.7%	12.4%	22.6%	3.0%	19.6%
<b>Gorllewin De Cymru</b>									
Aberafan			6.4%	50.7%	6.0%	20.0%	15.0%	1.9%	30.7%
Pen-y-bont ar Ogwr			24.4%	45.3%	4.0%	9.6%	14.6%	2.1%	20.9%
Gwyr			33.6%	39.7%	3.4%	9.9%	10.9%	2.4%	6.1%
Castell-nedd			8.6%	37.3%	2.9%	25.8%	14.9%	10.4%	11.5%
Ogwr			11.1%	55.2%	3.0%	14.7%	13.8%	2.2%	40.5%
Dwyrain Abertawe			8.4%	52.1%	7.6%	13.3%	15.9%	2.6%	36.2%
Gorllewin Abertawe			17.7%	40.6%	9.1%	14.5%	13.8%	4.3%	22.9%



**Tabl 6 Canlyniadau'r rhanbarthau a'r gyfran o'r bleidlais**

	Pleidleisiau						Cyfanswm	Y gyfran o'r bleidlais fel %					
	Con	Lab	LD	PC	UKIP	Oth		Con	Lab	LD	PC	UKIP	Oth
<b>Pleidlais yr etholaethau</b>													
Canolbarth a Gorllewin Cymru	50,742	38,606	36,524	58,898	23,625	10,794	219,189	23.1%	17.6%	16.7%	26.9%	10.8%	4.9%
Gogledd Cymru	53,357	66,739	9,408	50,213	21,951	3,308	204,976	26.0%	32.6%	4.6%	24.5%	10.7%	1.6%
Canol De Cymru	46,853	94,340	16,967	43,011	22,724	7,719	231,614	20.2%	40.7%	7.3%	18.6%	9.8%	3.3%
Dwyrain De Cymru	36,178	77,351	6,868	31,586	35,055	7,178	194,216	18.6%	39.8%	3.5%	16.3%	18.0%	3.7%
Gorllewin De Cymru	28,467	76,829	8,398	25,668	23,683	6,342	169,387	16.8%	45.4%	5.0%	15.2%	14.0%	3.7%
Pob rhanbarth	215,597	353,865	78,165	209,376	127,038	35,341	1,019,382	21.1%	34.7%	7.7%	20.5%	12.5%	3.5%
<b>Pleidlais y rhanbarthau</b>													
Canolbarth a Gorllewin Cymru	44,461	41,975	23,554	56,754	25,042	24,054	215,840	20.6%	19.4%	10.9%	26.3%	11.6%	11.1%
Gogledd Cymru	45,468	57,528	9,345	47,701	25,518	18,930	204,490	22.2%	28.1%	4.6%	23.3%	12.5%	9.3%
Canol De Cymru	42,185	78,366	14,875	48,357	23,958	23,392	231,133	18.3%	33.9%	6.4%	20.9%	10.4%	10.1%
Dwyrain De Cymru	33,318	74,424	6,784	29,686	34,524	15,355	194,091	17.2%	38.3%	3.5%	15.3%	17.8%	7.9%
Gorllewin De Cymru	25,414	66,903	10,946	29,050	23,096	13,780	169,189	15.0%	39.5%	6.5%	17.2%	13.7%	8.1%
Pob rhanbarth	190,846	319,196	65,504	211,548	132,138	95,511	1,014,743	18.8%	31.5%	6.5%	20.8%	13.0%	9.4%
<b>Cyfanswm y bleidlais</b>													
Canolbarth a Gorllewin Cymru	95,203	80,581	60,078	115,652	48,667	34,848	435,029	21.9%	18.5%	13.8%	26.6%	11.2%	8.0%
Gogledd Cymru	98,825	124,267	18,753	97,914	47,469	22,238	409,466	24.1%	30.3%	4.6%	23.9%	11.6%	5.4%
Canol De Cymru	89,038	172,706	31,842	91,368	46,682	31,111	462,747	19.2%	37.3%	6.9%	19.7%	10.1%	6.7%
Dwyrain De Cymru	69,496	151,775	13,652	61,272	69,579	22,533	388,307	17.9%	39.1%	3.5%	15.8%	17.9%	5.8%
Gorllewin De Cymru	53,881	143,732	19,344	54,718	46,779	20,122	338,576	15.9%	42.5%	5.7%	16.2%	13.8%	5.9%
Pob rhanbarth	406,443	673,061	143,669	420,924	259,176	130,852	2,034,125	20.0%	33.1%	7.1%	20.7%	12.7%	6.4%

**Tabl 7 Amrywiad rhwng cyfran y pleidleisiau ar gyfer yr etholaethau a'r rhanbarthau**

	% yr amrywiad yn y % o'r bleidlais					
	Con	Lab	LD	PC	UKIP	Oth
Canolbarth a Gorllewin Cymru	+2.6%	-1.8%	+5.8%	+0.6%	-0.8%	-6.2%
Gogledd Cymru	+3.8%	+4.4%	+0.0%	+1.2%	-1.8%	-7.6%
Canol De Cymru	+2.0%	+6.8%	+0.9%	-2.4%	-0.6%	-6.8%
Dwyrain De Cymru	+1.5%	+1.5%	+0.0%	+1.0%	+0.3%	-4.2%
Gorllewin De Cymru	+1.8%	+5.8%	-1.5%	-2.0%	+0.3%	-4.4%
Pob rhanbarth	+2.3%	+3.3%	+1.2%	-0.3%	-0.6%	-5.9%

**Tabl 8 Tabl y rhanbarthau - Seddi a newid mewn seddi**

	Seddi a enillwyd					Cyfanswm	Newid yn nifer y seddi a enillwyd					
	Con	Lab	LD	PC	UKIP		Oth	Con	Lab	LD	PC	UKIP
<b>Pleidlais yr etholaethau</b>												
Canolbarth a Gorllewin Cymru	3	1	1	3	0	8	0	0	0	0	0	0
Gogledd Cymru	2	5	0	2	0	9	0	0	0	0	0	0
Canol De Cymru	0	7	0	1	0	8	0	-1	0	1	0	0
Dwyrain De Cymru	1	7	0	0	0	8	0	0	0	0	0	0
Gorllewin De Cymru	0	7	0	0	0	7	0	0	0	0	0	0
Pob rhanbarth	6	27	1	6	0	40	0	-1	0	1	0	0
<b>Pleidlais y rhanbarthau</b>												
Canolbarth a Gorllewin Cymru	0	2	0	1	1	4	0	0	-1	0	1	0
Gogledd Cymru	1	0	0	1	2	4	-1	0	-1	0	2	0
Canol De Cymru	2	0	0	1	1	4	0	0	-1	0	1	0
Dwyrain De Cymru	1	0	0	1	2	4	-1	0	0	-1	2	0
Gorllewin De Cymru	1	0	0	2	1	4	-1	0	-1	1	1	0
Pob rhanbarth	5	2	0	6	7	20	-3	0	-4	0	7	0
<b>Cyfanswm y bleidlais</b>												
Canolbarth a Gorllewin Cymru	3	3	1	4	1	12	0	0	-1	0	1	0
Gogledd Cymru	3	5	0	3	2	13	-1	0	-1	0	2	0
Canol De Cymru	2	7	0	2	1	12	0	-1	-1	1	1	0
Dwyrain De Cymru	2	7	0	1	2	12	-1	0	0	-1	2	0
Gorllewin De Cymru	1	7	0	2	1	11	-1	0	-1	1	1	0
Pob rhanbarth	11	29	1	12	7	60	-3	-1	-4	1	7	0

**Tabl 9 Tabl y rhanbarthau - Newid yng nghyfran y bleidlais, cymharu'r nifer a bleidleisiodd â chanlyniadau 2011**

	Newid yn y gyfran o'r bleidlais fel %						Etholwyr	% a bleidleisiodd	Newid fel %
	Con	Lab	LD	PC	UKIP	Oth			
<b>Pleidlais yr etholaethau</b>									
Canolbarth a Gorllewin Cymru	-3.8%	-5.8%	-0.6%	-2.4%	+10.8%	+1.7%	425,355	51.5%	+3.0%
Gogledd Cymru	-4.6%	-5.4%	-3.4%	+1.6%	+10.7%	+1.1%	470,492	43.6%	+2.4%
South Wales Central	-4.2%	-9.2%	-3.2%	+3.9%	+9.8%	+2.8%	494,758	46.8%	+5.6%
Dwyrain De Cymru	-2.9%	-9.5%	-4.0%	+3.6%	+18.0%	-5.3%	463,353	41.9%	+3.4%
Gorllewin De Cymru	-3.3%	-9.7%	-3.4%	+0.1%	+14.0%	+2.4%	391,979	43.2%	+5.3%
Pob rhanbarth	-3.9%	-7.6%	-2.9%	+1.3%	+12.5%	+0.6%	2,245,937	45.4%	+3.9%
<b>Pleidlais y rhanbarthau</b>									
Canolbarth a Gorllewin Cymru	-4.6%	-3.1%	-1.9%	-0.5%	+6.4%	-3.5%	425,355	50.7%	+2.2%
Gogledd Cymru	-4.6%	-4.0%	-1.3%	+1.9%	+5.8%	-7.2%	470,492	43.5%	+2.3%
Canol De Cymru	-3.7%	-7.1%	-1.5%	+7.2%	+5.8%	-8.1%	494,758	46.7%	+5.6%
Dwyrain De Cymru	-2.4%	-7.3%	-2.5%	+3.2%	+12.8%	-7.7%	463,353	41.9%	+3.3%
Gorllewin De Cymru	-2.8%	-6.9%	-0.5%	+3.4%	+9.7%	-7.0%	391,979	43.2%	+5.3%
Pob rhanbarth	-3.7%	-5.4%	-1.6%	+3.0%	+8.5%	-0.7%	2,245,937	45.2%	+3.8%
<b>Cyfanswm y bleidlais</b>									
Canolbarth a Gorllewin Cymru	-4.1%	-4.4%	-1.2%	-1.4%	+9.0%	+2.2%	425,355	.	.
Gogledd Cymru	-4.6%	-4.7%	-2.4%	+1.8%	+9.1%	+0.8%	470,492	.	.
Canol De Cymru	-4.0%	-8.1%	-2.3%	+5.5%	+8.1%	+0.8%	494,758	.	.
Dwyrain De Cymru	-2.6%	-8.4%	-3.2%	+3.4%	+15.3%	-4.4%	463,353	.	.
Gorllewin De Cymru	-3.1%	-8.3%	-1.9%	+1.8%	+11.7%	-0.1%	391,979	.	.
Pob rhanbarth	-3.8%	-6.5%	-2.2%	+2.1%	+10.5%	-0.0%	2,245,937	.	.





















**Tabl 11 Tabl y rhanbarthau - Pleidleisiau, gan gynnwys pleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol (gweler codau'r pleidiau yn adran 4)**

Tabl y rhanbarthau - Pleidleisiau, gan gynnwys y pleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol

	Pleidleisiau																	Sub-total		Total
	Con	Lab	LD	PC	UKIP	GP	AWAP	MRLP	AWLI	WEP	TUSC	WCom	PF	CPW	Com	FTC	NF	Ind	Other	
Canolbarth a Gorllewin Cymru	44,461	41,975	23,554	56,754	25,042	8,222	10,707	1,071	1,032	0	0	423	1,496	1,103	0	0	0	0	24,054	215,840
Gogledd Cymru	45,468	57,528	9,345	47,701	25,518	4,789	9,409	1,355	1,865	0	0	586	0	0	0	0	0	926	18,930	204,490
Canol De Cymru	42,185	78,366	14,875	48,357	23,958	7,949	9,163	1,096	0	2,807	736	0	0	0	520	470	0	651	23,392	231,133
Dwyrain De Cymru	33,318	74,424	6,784	29,686	34,524	4,831	7,870	1,115	0	0	618	492	0	0	0	0	429	0	15,355	194,091
Gorllewin De Cymru	25,414	66,903	10,946	29,050	23,096	4,420	7,137	1,106	0	0	686	431	0	0	0	0	0	0	13,780	169,189

## Tabl 12 Aelodau etholedig

### Pleidlais y rhanbarthau

	<u>Aelod etholedig</u>	<u>Plaid</u>	<u>Rhanbarth</u>
	Eluned Morgan	Y Blaid Lafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
	Neil Hamilton	UKIP	Canolbarth a Gorllewin Cymru
	Simon Thomas	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
	Joyce Watson	Y Blaid Lafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
	Llyr Gruffydd	Plaid Cymru	Gogledd Cymru
	Mark Isherwood	Y Ceidwadwyr	Gogledd Cymru
	Nathan Gill	UKIP	Gogledd Cymru
	Michelle Brown	UKIP	Gogledd Cymru
	Andrew RT Davies	Y Ceidwadwyr	Canol De Cymru
	Gareth Bennett	UKIP	Canol De Cymru
	David Melding	Y Ceidwadwyr	Canol De Cymru
	Neil McEvoy	Plaid Cymru	Canol De Cymru
	Mohammad Asghar	Y Ceidwadwyr	Dwyrain De Cymru
	Steffan Lewis	Plaid Cymru	Dwyrain De Cymru
	Mark Reckless	UKIP	Dwyrain De Cymru
	David Rowlands	UKIP	Dwyrain De Cymru
	Caroline Jones	UKIP	Gorllewin De Cymru
	Dai Lloyd	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru
	Suzy Davies	Y Ceidwadwyr	Gorllewin De Cymru
	Bethan Jenkins	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru

Pleidlais yr etholaethau

Aelod etholedig	Plaid	Etholaeth
	Y Blaid Lafur	Aberafan
	Y Ceidwadwyr	Aberconwy
	Y Blaid Lafur	Alun a Glannau Dyfrdwy
	Plaid Cymru	Ynys Mon
	Plaid Cymru	Arfon
	Y Blaid Lafur	Blaenau Gwent
	Y Democratiaid Rhyddfrydol	Brycheiniog a Sir Faesyfed
	Y Blaid Lafur	Pen-y-bont ar Ogwr
	Y Blaid Lafur	Caerffili
	Y Blaid Lafur	Canol Caerdydd
	Y Blaid Lafur	Gogledd Caerdydd
	Y Blaid Lafur	De Caerdydd a Phenarth
	Y Blaid Lafur	Gorllewin Caerdydd
	Plaid Cymru	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
	Y Ceidwadwyr	Carmarthen West and South Pembrokeshire
	Plaid Cymru	Ceredigion
	Y Blaid Lafur	De Clwyd
	Y Ceidwadwyr	Gorllewin Clwyd
	Y Blaid Lafur	Cwm Cynon
	Y Blaid Lafur	Delyn
	Plaid Cymru	Dwyfor Meirionnydd
	Y Blaid Lafur	Gwyr
	Y Blaid Lafur	Islwyn
	Y Blaid Lafur	Llanelli
	Y Blaid Lafur	Merthyr Tudful a Rhymini
	Y Ceidwadwyr	Mynwy
	Y Ceidwadwyr	Sir Drefaldwyn
	Y Blaid Lafur	Castell-nedd
	Y Blaid Lafur	Dwyrain Casnewydd
	Y Blaid Lafur	Gorllewin Casnewydd
	Y Blaid Lafur	Ogwr
	Y Blaid Lafur	Pontypridd
	Y Ceidwadwyr	Preseli Sir Benfro
	Plaid Cymru	Rhondda
	Y Blaid Lafur	Dwyrain Abertawe
	Y Blaid Lafur	Gorllewin Abertawe
	Y Blaid Lafur	Tor-faen
	Y Blaid Lafur	Dyffryn Clwyd
	Y Blaid Lafur	Bro Morgannwg
	Y Blaid Lafur	Wrecsam

## 4. Ffynhonnell a Nodiadau

### Ffynonellau data - pleidleisiau

Pan fo ar gael, mae nifer y pleidleisiau a fwrwyd dros bob plaid yn 2016 wedi'i chymryd o'r wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol drwy Swyddogion Canlyniadau, a'i dilysu gan ddefnyddio data gan y Press Association a'r BBC.

Mae canlyniadau etholiadau eraill yn y gorffennol a ddefnyddir yn y papur hwn yn seiliedig ar y canlyniadau swyddogol a ddarperir gan **y Comisiwn Etholiadol** trwy ei wefan

### Ffynonellau data - nifer yr etholwyr a'r ganran a bleidleisiodd

Mae Swyddogion Canlyniadau a'r Press Association wedi darparu data sy'n ymwneud â'r ganran a bleidleisiodd, a dilyswyd hyn gan ddefnyddio data gan y BBC.

Mae'r ganran a bleidleisiodd wedi ei chyfrifo gan ddefnyddio nifer y pleidleisiau dilys fel canran o nifer yr etholwyr. Nid yw pleidleisiau a ddifethwyd neu bleidleisiau a wrthodwyd yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo.

### Allwedd i godau'r pleidiau

Mae gan bob plaid gofrestredig god byr fel y'u dangosir isod. Mewn llawer o dablau yn y cyhoeddiad hwn, cyfunwyd pleidiau heblaw'r Ceidwadwyr, y Blaid Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru ac UKIP mewn llwyd fel pleidiau 'eraill', gyda'r cod byr 'arall'.

Cod a lliw	Plaid
AWAP	Plaid Diddymu Cynulliad Cymru
AWLI	Cymdeithas Annibynnol Leol Cymru
Com	Plaid Gomiwnyddol Prydain
Con	Y Ceidwadwyr
CPW	Plaid Gristnogol Cymru
FTC	Freedom to choose
GP	Plaid Werdd Cymru
Ind	Annibynnol
Lab	Y Blaid Lafur
LD	Y Democratiaid Rhyddfrydol
MRLP	The Official Monster Raving Loony Party
NF	Y Ffrynt Cenedlaethol
PC	Plaid Cymru
PF	Gwerin Gyntaf
TUSC	Trade Unionist and Socialist Coalition
UKIP	Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
WCom	Plaid Gomiwnyddol Cymru
WEP	Plaid Cydraddoldeb Merched